**Rebecca Evans AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**
**Deputy Minister for Farming and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P04-445
Ein cyf/Our ref: MB/RE/2484/15

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Gorffennaf 2015

Annwyl William,

Rwy'n ysgrifennu i'ch diweddaru ynghylch yr adolygiad arfaethedig sy'n ymwneud â bwriad y polisi ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010.

Mae adolygiad o'r fath yn rhan o arferion da i sicrhau bod bwriad y polisi yn parhau yn ddilys a bod y ddeddfwriaeth yn dal yn addas i'r pwrpas ac wedi'i seilio ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Daeth y Rheoliadau hyn i rym yn 2010 a chan fod ymchwil wedi cael ei gyhoeddi ers iddyn nhw ddod i rym, mae'n amser da i ddechrau ar y gwaith adolygu hwn.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Mehefin, dywedais, mewn ymateb i gwestiwn a ofynnodd Simon Thomas AC fy mod wedi cwrdd â Chadeirydd y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid gan drafod y mater penodol gydag ef. Bellach, mae Grŵp y Fframwaith wedi ystyried y polisi ac wedi cytuno ar y gwaith sy'n rhaid ei wneud; mae angen i Adran Brifysgol briodol neu ymchwilydd annibynnol gynnal adolygiad briodol o'r deunydd darllen. Mae fy swyddogion wrthi'n trefnu hyn ar hyn o bryd.

Mae fy swyddogion hefyd wedi cwrdd â dau barti sydd wedi mynegi eu pryderon am y Rheoliadau hyn, Hefyd, fe wyddoch y mynegwyd yn gynharach eleni gefnogaeth i'r Rheoliadau hyn gan yr RSPCA, Blue Cross, Kennel Club, Cartrefi Cŵn a Cathod Battersea).

Fe ysgrifennaf atoch eto pan fydd rhagor wedi cael ei wneud gyda'r mater hwn.

Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*